# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mawrth 14eg 2018.

**Presennol.**

Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes,Cyng D.Morris Cyng C.Edwards

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Edwards. Cyng C.Dixon

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 14eg Chwerfor 2018**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir gyda Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

Toiled Ganllwyd- mae'r Cyngor Cymuned wedi arwyddo'r contract gyda Cyngor Gwynedd er mwyn cadw'r toiledau ar agor am y flwyddyn ariannol 2018-19.

Bydd y Cyngor Cymuned yn talu £250 tuag at gostau cynnal a chadw'r toiled.

**Cynghorydd Sir**

Ddim yn bresennol.

**Diffibrilydd**

Yn dilyn trafod y pwnc yma ymhellach, penderfynodd y cyngorhorwyr eu bod am symud ymlaen i brynu diffibriliwr a'r eitemau cysylltiedig i'w defnyddio yn y Ganllwyd pe bai digon o ddiddordeb a chymorth a'r gael yn y gymuned.

Er mwyn penderfynu a oes digon o gefnogaeth o fewn y gymuned bydd y Clerc yn gwahodd holl aelodau'r gymuned i gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y pentref ddydd Mercher 9 Mai 2018.

**Adroddiad blynyddol i'r wasg.**

Clerc i gysylltu a'r Cambrian News er mwyn darganfod os byddant yn cyhoeddi adroddiad byr yn ymwneud â gwaith y cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd copi o'r adroddiad ar wefan y cyngor.

**Materion ariannol.**

**Cyson Banc: Chwerfor 2018**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£6463.67** |
| | | |
| **Derbyniwyd:** | | |
| **Rhodd gan Matt Ward** | | **£400.00** |
| | | |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Neuadd Rhyd y Gorlan** | **£280.00** |
| | **Neuadd Ganllwyd** | **£360.00** |
| | **(Taliadau i'r ddau neuadd cyfran nhw o rodd "Always aim high" a gafodd i dalu i'r banc 11/1/18)** | |
| | **Un Llais Cymru (aelodaeth)** | **£ 27.00** |
| | | |
| **Yn y Banc diwedd mis** | | **£6096.67** |

Rhoddion am y flwyddyn ariannol.

| | |
|---|---|
| Capel Libanus | £100 |
| Neuadd y Pentref | £300 |
| Sioe y Ganllwyd | £100 |

Bydd y Clerc yn anfon adroddiad i bob cynghorydd sy'n deillio o'r llywodraeth ac yn ymwneud â'r hawliadau a'r lwfansiau ariannol y gall cynghorydd fod yn gymwys ar ei gyfer

Dylai pob cynghorydd ddarllen dyfarniadau 44-51 erbyn y cyfarfod nesaf a phenderfynu pa rai o'r gwahaniaethau y dylai'r cyngor eu mabwysiadu ac a

ydynt am wneud hawliad unigol mewn perthynas ag unrhyw un o'r pwyntiau hynny.

**Llythyrau & E-byst**

Ffordd Lefel- derbyniwyd e-bost (20/2/18) gan Mr Williams, Cyngor Gwynedd yn rhoi diweddariad ar gyflwr y  Ffordd Lefel a faint o waith fydd angen cyn i’r ffordd ail agor.

Ar ol trafod y mater nododd y cyngor fod llwybr gwyro ar gyfer traffig yn golygu y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr y ffordd deithio yn awr ar hyd ffordd gul(Maes yr Eglwys Wen) er mwyn teithio i Ganllwyd, Llanfachraeth, Abergeirw a Hermon. Nid yw gosodiad y ffordd hon yn ymddangos yn gyfesur am gynnydd yn nifer y traffig. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i drafod y mater hwn ymhellach.

Arolwg Swyddfa Archwilio Cynghorau Cymru.

Mae’r clerc wedi cwblhau yr archwiliad ar rhan y cyngor (8/3/18)

**Unrhyw fater arall.**

Dim.

Llofnod y Cadeirydd.

.